

46. GADAEL AM BYTH
(Dameg y deg darn aur)

Un tro etifeddodd rhyw ŵr bonheddig drydedd ran o deyrnas ei dad. Ond cyn y câi ei goroni'n frenin roedd yn rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan yr ymerawdwr. Gan fod yr ymerawdwr yn byw gannoedd o filltiroedd i ffwrdd, a chan fod teithio'n orchwyl araf a pheryglus yn y dyddiau hynny, gwyddai'r gŵr y byddai i ffwrdd oddi cartref am amser maith. Felly galwodd ar ei weision.

'Rwy'n cychwyn am Rufain yfory.' Agorodd ei drysorfa ac estynnodd lond llaw o ddarnau aur a elwid yn *minas*. 'Tra byddaf i ffwrdd, rwyf am i chi ennill cymaint o arian ag y gallwch i mi â'r hyn a roddaf i chi.'

Yna rhoddodd un o'r darnau aur i bob un ohonynt.

Nawr, roedd Primus, y prif was, yn hoffi sialens. Roedd ganddo feddwl chwim ac roedd bob amser yn cadw'i lygaid ar agor am gyfle i wneud arian. Cyn gynted ag y derbyniodd ei ddarn aur, dechreuodd pob math o gynlluniau a phrosiectau wibio trwy'i feddwl. Yr oedd yr ail was, Secundus, hefyd yn ei elfen. Er ei fod ychydig yn llai mentrus a heb fod mor greadigol â'i gyfaill Primus, yr oedd yn benderfynol o sicrhau elw sylweddol i'w feistr.

Y diwrnod canlynol, wedi i bawb ddymuno rhwydd hynt iddo, cychwynnodd y bonheddwr ar ei daith. Heb oedi, aeth Primus a Secundus ati i drafod busnes, gan fuddsoddi, masnachu a bargeinio fel

pe na bai diwrnod arall i'w gael.

Yn y cyfamser, roedd Tertius, y trydydd gwas, wedi taro ei ddarn aur ar y mat gerllaw ei wely. Wrth gwrs, fe wyddai nad fel addurn y derbyniodd y darn. Ond nid oedd ychwaith am adael i'w fywyd gael ei reoli ganddo. 'Wedi'r cyfan,' ymresymodd, 'bydd fy meistr i ffwrdd am oesoedd. Dwi am ei chymryd hi'n dawel cyn hired â phosibl.'

Gyda hyn mewn golwg penderfynodd fynd am dro i'r dafarn ac yno, er mawr syndod iddo, darganfu fod cyfarfod protest yn cael ei gynnal.

'Rydym yn trefnu dirprwyaeth i ddweud wrth yr ymerawdwr nad ydym eisiau'r bonheddwr da i ddim yna'n frenin,' dywedodd un o'r dorf wrtho.

'Digon gwir. Mae'n ŵr caled. Mae'n cymryd yr hyn nad yw ef wedi gweithio amdano ac yn medi'r hyn mae eraill yn ei hau,' cytunodd un arall.

Er nad oedd Tertius yn cytuno â'r hyn a glywsai, cadwodd ei geg ar gau. Doedd arno ddim eisiau creu gelynion. Wedi'r cyfan, ni wyddai neb pryd y deuai ei feistr yn ôl, os dychwelai o gwbl.

Aeth amser heibio. Bu Primus a Secundus wrthi mor ddiwyd ag erioed yn ceisio chwyddo coffrau eu meistr. Weithiau byddai busnes yn araf a byddai eu hwynebau'n hir a difrifol. Dro arall roedd busnes yn ffynnu a byddent yn rhwbio eu dwylo â boddhad. Ond doedd gan Tertius ddim mymryn o ddiddordeb. Wedi ychydig fisoedd sylwodd fod y *mina* a dderbyniodd yn hel llwch, felly fe'i lapiodd mewn darn o frethyn a'i ddodi o dan ei fatras. Roedd mor ddiog nes ei fod yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn y gwely.

Ac yna'n sydyn newidiodd popeth. Un funud roedd y tŷ'n berffaith i bendwmpian ynddo. Ond y foment nesaf roedd y lle'n llawn cyffro a sŵn.

'Beth sy'n digwydd?' holodd Tertius yn gysglyd.

'Mae'r meistr yn ôl. Mae e eisiau dy weld – ar unwaith!'

Gyda chalon drom aeth y gwas i lawr y grisiau, gan gyrraedd y cyntedd fel yr oedd y brenin newydd ar fin derbyn sachaid orlawn o'r *minas*.

'Syr, rwyf wedi ennill deg *mina* arall â'r un a roddasoch i mi,' gwenodd Primus.

'Ardderchog, fy nghyfaill,' gwenodd y brenin.

'Gan i ti brofi dy fod yn ffyddlon a gan y gwn y gallaf ymddiried ynot, rhoddaf ddeg dinas i ti lywodraethu arnynt.'

Yna daeth Secundus gyda baich ychydig yn ysgafnach.

'Syr, llwyddais i ennill pum *mina* ychwanegol.'

'Da iawn ti,' atebodd y brenin mewn llais cynnes. 'Gan i ti brofi dy fod yn ffyddlon a dibynadwy, cei fod â gofal pum dinas.'

'Deg dinas am ddeg *mina*. Pum dinas am bum *mina*. Un ddinas am un *mina*. O wel – llai o drafferth!' Ymgrymodd Tertius gerbon y brenin. 'Syr, dyma eich *mina*,' dywedodd. 'Rwyf wedi ei gadw'n ddiogel mewn darn o frethyn.'

Bu distawrwydd llethol. Edrychodd Tertius ar wyneb ei feistr, yna gostyngodd ei ben. 'Ol reit. Falle na wnes i fawr o ymdrech,' mwmiodd. 'Ond . . . ond . . . roeddwn i'n gwybod eich bod yn ddyn caled. Rydych chi'n cymryd yr hyn nad ydych wedi gweithio amdano ac yn medi'r hyn nad ydych wedi ei hau.'

O bob esgus, roedd hwn yn swnio'n un gwan.

'O, fe wyddet ti felly, 'mod i'n ŵr caled, yn cymryd yr hyn na weithiais amdano ac yn medi'r hyn mae eraill yn ei hau?' ailadroddodd y brenin ei eiriau. 'Felly pam nad aethost ti â'r arian i fanc fel y byddai'n ennill llog?'

Drwy drugaredd arbedwyd Tertius rhag gorfod cyfaddef y gwir reswm, sef nad oedd erioed wedi disgwyl gweld ei feistr yn dychwelyd fel brenin. Wrth gwrs, pe bai'n gwybod ar y pryd mai fel hyn y byddai pethau'n troi allan byddai wedi ymddwyn yn wahanol. Cysgu llai . . . torchi ei lewys . . . gwneud ychydig o waith. Ond roedd hi'n rhy hwyr nawr.

'Ewch â'r *mina* yna oddi arno a'i rhoi i'r un a chanddo ddeg,' gorchmynnodd y brenin.

A gwyddai Tertius ei fod yn lwcus o gael dianc oddi yno'n groeniach.

HYD: 6 munud

NEGES: Adroddodd Iesu'r ddameg hon i'n hatgoffa y bydd ef, fel y gŵr bonheddig yn ein stori, yn dychwelyd fel brenin ryw ddydd.

DARLLEN: Mae'r stori wedi ei seilio ar Luc 19: 11–27.

ADRODD Y STORI I GRŴP:

Mae digon yn digwydd yn y stori a gall gael ei pherfformio fel meim gyda dim ond pedwar cymeriad (tri gwas a brenin).